# Datganiad Polisi

1. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i'r holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**.
2. Mae **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn ymrwymo i warchod a gwella yr amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol ei weithgareddau.
3. Bydd **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn rheoli ei weithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol-gynaliadwy.
4. Er mwyn cyflawni y nod bydd rhaid i **Gyngor Cymuned Llanystumdwy** ddilyn yr amcanion hyn:
    - Hyrwyddo ac ymarfer polisïau rheolaeth amgylcheddol pan fo'n briodol.
    - Fel lleiafswm, cydymffurfio ag anghenion deddfwriaeth berthnasol.
    - Bod yn effeithlon a chyfrifol o safbwynt amgylcheddol ynglŷn â'r defnydd o ddŵr ac ynni.
    - Hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol wrth ddefnyddio gwasanaethau a nwyddau.
    - Creu cyn lleied o wastraff ag sy'n ymarferol ac ailddefnyddio neu ailgylchu fel sy'n briodol.
    - Creu llai o lygredd ac, os oes modd, peidio â'i greu o gwbl.
    - Codi ymwybyddiaeth aelodau **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** o effeithiau amgylcheddol yn deillio o weithgareddau a pherfformiad, a hyrwyddo ymarfer da unigolion.
5. Er bod **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn derbyn y prif gyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn, mae unigolion yn chwarae rhan bwysig wrth gydweithio â'r sawl sydd yn gyfrifol am warchod yr amgylchedd. Mae'n ofynnol i unigolion gadw at y rheolau a'r gofynion a wneir o dan lywodraeth y polisi hwn.

Mabwysiadwyd: 3 Mehefin 2021

Bydd y Datganiad Polisi yn cael ei ddiweddaru bob pum mlynedd, yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y Datganiad Polisi.

Llofnodwyd gan: *Angela Williams* (Is- gadeirydd)

*Bethan Parry Jones* (Clerc)

Dyddiad: 03.06.2021